# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-23-08)

**Dyddiad: 21 Hydref 2008**
**Amser : 8.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC206 - Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 3 Hydref 2008. Fe'i gosodwyd ar 7 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 28 Hydref 2008

Mae'r Gorchymyn hwn yn cywiro gwall a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008.

SLC207 - Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 30 Hydref 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005 (Rhif 422) (W. 40) er mwyn pennu bod British Telecommunications ("BT") yn gyfrifol o'r 1af Ebrill 2005 am ardrethu annomestig gyda golwg ar ddolennau lleol a ddadfwndelwyd, fel bod unrhyw ddolennau lleol a ddadfwndelwyd y mae BT yn eu gosod neu'n eu trwyddedu i unrhyw berson i gael eu trin fel pe baent wedi'u meddiannu gan BT. Mae dolen leol a ddadfwndelwyd yn bodoli pan fo'r cysylltiad gwifren gopr rhwng y gyfnewidfa teleffon leol a mangre'r cwsmer wedi ei ddatgysylltu o rwydwaith BT a'i gysylltu â rhwydwaith darparwr gwasanaeth amgen.

SLC208 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hereditamentau Cyfathrebu) (Prisio, Newid Rhestri ac Apelau a Diwrnod Perthnasol) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 31 Hydref 2008

Llywodraethir y modd y prisir hereditamentau annomestig gan Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"). Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 yn rhoi'r hawl i drethdalwyr mewn rhai amgylchiadau wneud cynnig i swyddog prisio y dylid newid y gwerth ardrethol a ddangosir ar gyfer eu hereditament mewn rhestr ardrethu. Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i British Telecommunications ("BT") gynnig newid yng ngwerth ardrethol ei hereditament o ganlyniad i ddadfwndelu dolennau lleol yn llawn mewn perthynas â chofnod BT yn y rhestr ardrethu canolog a ddaeth i rym ar y 1 Ebrill 2005 a rhestrau ardrethu dilynol. Y dolennau lleol a ddadfwndelwyd yn llawn yw'r parau sengl o wifrau copr, sy'n cysylltu mangreoedd cwsmeriaid â'r gyfnewidfa teleffon leol ac y mae'r cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau teleffon a band eang trwyddynt. Mae'r dolennau yn rhan o hereditament BT yn rhinwedd rheoliad 8 o Reoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005.

SLC209 - Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.
- yn diwygio Rheoliadau Datgymhwysiad rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") gan ystyried newidiadau i'r weithdrefn apelio sy'n gymwys i gymeradwyaethau o dan Reoliadau 2004 a wnaed o ganlyniad i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007.

SLC210 - Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.
- yn diwygio Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") gan ystyried newidiadau i'r weithdrefn apelio sy'n gymwys i gymeradwyaethau o dan Reoliadau 2004 a wnaed o ganlyniad i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007.

SLC211 - Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 8 Hydref 2008. Fe'i gosodwyd ar 10 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.
- yn diwygio Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007 ("y Cynllun") gan ystyried newidiadau i'r weithdrefn apelio sy'n gymwys i gymeradwyaethau o dan y Cynllun a wnaed o ganlyniad i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog

15.2

### Eitem 3.1: Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC205 - Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 1 Hydref 2008. Fe’u gosodwyd ar 6 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 29 Hydref 2008.
- yn diwygio Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007”) i greu trefniadau trosiannol mewn perthynas â gorfodi - gofynion labelu ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, gofynion o ran siâp, ymddangosiad a phecynnu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol ac yn gwneud diwygiadau ôl-ddilynol, perthynol. Mae’r diwygiadau hyn yn angenrheidiol i roi ei effaith i ddyfarniad yr Uchel Lys a draddodwyd ar 20 Chwefror 2008 yn rhoi datganiad nad oedd Rheoliadau 2007 yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb y Comisiwn 2006/141/EC i’r graddau bod Rheoliadau 2007 yn gwahardd masnach o 11 Ionawr 2008 yn hytrach nag o 31 Rhagfyr 2009, mewn fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol sydd â’u labelu yn bodloni gofynion labelu Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol 1995 ond nad ydynt yn bodloni gofynion Rheoliadau 2007.

### Eitem 4: Unrhyw fater arall

### Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf